OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 121 (Cy.11)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Presgripsiynau am Ddim a Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) 2007

Wedi'u gwneud - -	*23 Ionawr 2007*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2007*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 77, 83, 83A a 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**1**) a pharagraff 1 o Atodlen 12 iddi, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Presgripsiynau am Ddim a Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) 2007 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2007.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn, oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall—

ystyr "anabledd wedi'i dderbyn" ("*accepted disablement*") yw anaf neu glefyd corfforol neu feddyliol y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn derbyn eu bod i'w priodoli i wasanaeth yn lluoedd arfog y Goron neu unrhyw wasanaeth arall a benderfynir gan y Cynulliad, neu eu bod wedi'u gwaethygu gan wasanaeth o'r fath;

mae i "Bwrdd Iechyd Lleol" yr ystyr a roddir i "Local Health Board" yn adran 16BA o'r Ddeddf(**2**);

ystyr "Canolfan cerdded i mewn" ("*Walk-in centre*") yw canolfan lle y mae gwybodaeth a thriniaeth am fân anhwylderau yn cael eu darparu ar gyfer y cyhoedd o dan drefniadau a wneir gan neu ar ran y Cynulliad Cenedlaethol;

mae "carchar" ("*prison*") yn cynnwys sefydliad tramgwyddwyr ifanc ond nid canolfan hyfforddi ddiogel neu garchar y llynges, carchar milwrol neu garchar y llu awyr, ac at ddibenion y diffiniad hwn—

(**1**) 1977 p.49

(**2**) Disodlir adran 16BA o'r Ddeddf gan adran 11 o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 gydag effaith o 1 Mawrth 2007.

ystyr "canolfan hyfforddi ddiogel" ("*secure training centre*") yw man y mae tramgwyddwyr sy'n destun gorchmynion cadw a hyfforddi o dan adran 100 o Ddeddf Pwerau'r Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000(**3**) (tramgwyddwyr o dan 18 oed: gorchmynion dal gafael a hyfforddi) y gellir dal gafael ynddynt a'u hyfforddi a'u haddysgu a'u paratoi ar gyfer eu rhyddhau;

ystyr "carcharor" ("*prisoner*") yw person a gedwir mewn carchar, lle darperir gwasanaethau deintyddol, offthalmig, fferyllol neu nyrsio o dan y Ddeddf(**4**)gan, neu o dan drefniadau a wnaed gan Fwrdd Iechyd Lleol ac eithio yn rhinwedd adran 7(2) o Ddeddf Iechyd a Meddyginiaethau 1988(**5**) (estyniad pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i ariannu'r Gwasanaeth Iechyd);

ystyr "sefydliad tramgwyddwyr ifanc" ("*young offender institution*") yw man i ddal gafael ar dramgwyddwyr a ddedfrydwyd i gael eu cadw mewn sefydliad i dramgwyddwyr ifanc neu ddalfa am oes;

mae i "cerdyn hawl" ("*entitlement card*") yr ystyr a briodolir iddo gan reoliad 11(1);

ystyr "cerdyn hawl dilys" ("*valid entitlement card*") yw cerdyn hawl sydd mewn grym ac sy'n gymwys i'r claf a enwir ar ffurflen bresgipsiwn gyfatebol;

ystyr "claf" ("*patient*") yw —

(a) unrhyw berson y rhoddir gwasanaethau meddygol sylfaenol iddo o dan Ran 1 o'r Ddeddf(**6**);

(b) unrhyw berson sy'n gwneud cais i fferyllydd ddarparu gwasanaethau fferyllol iddo ac at ddibenion y Rheoliadau hyn mae'n cynnwys person sy'n gweithredu ar ran person o'r fath;

(c) unrhyw berson sy'n gofyn am wybodaeth neu driniaeth gan Ganolfan cerdded i mewn;

(ch) unrhyw berson sy'n gwneud cais am gael cyffur wedi'i gyflenwi yn unol â Chyfarwyddyd Grwp Cleifion;

mae i'r term "claf cymwys" ("*qualifying patient*") yr ystyr a briodolir iddo gan reoliad 11(3);

ystyr "cofresr berthnasol" ("*relevant register*") yw—

(a) mewn perthynas â nyrs neu gydwraig, y Gofrestr Nyrsion a Bydwreigiaeth;

(b) mewn perthynas â fferyllydd, y gofrestr a gedwir yn unol ag adran 2(1) o Ddeddf Fferylliaeth 1954(**7**) neu'r gofresr a gedwir yn unol ag Erthyglau 6 a 9 o Orchymyn Fferylliaeth (Gogledd Iwerddon) 1976(**8**);

(c) mewn perthynas â pherson y mae ei enw wedi'i gofrestru yn y rhan o'r ofrestr a gedwir gan y Cyngor Proffesiynau Iechyd yn unol ag Erthygl 5 o Orchymyn Proffesiynau Iechyd 2001(**9**) sy'n ymwneud â—

(i) ciropodyddion a phodiatryddion;

(ii) ffysiotherapyddion; neu

(iii) radiograffyddion: diagnostig neu therapiwtig,

y gofrestr honno; ac

(**3**) 2000 p.6.
(**4**) Darperir gwasanaethau deintyddol, offthalmig a fferyllol yn eu trefn o dan Rannau 4, 5, 6 a 7 o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol gydag effaith o 1 Mawrth 2007.
(**5**) 1988 p.49.
(**6**) Darperir gwasanaethau meddygol sylfaenol o dan Ran 4 o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 gydag effaith o 1 Mawrth 2007.
(**7**) 1954 p.61.
(**8**) Rh. St. 1976/1213 (G.I.22).
(**9**) O.S. 2001/254.

(ch) mewn perthynas ag optometrydd cofrestredig, y gofrestr optometryddion a gedwir o dan adran 7(a) o Ddeddf Optegwyr 1989(**10**);

ystyr "Cofrestr Nyrsio a Bydwreigiaeth" ("*Nursing and Midwifery Register*") yw'r gofrestr a gedwir gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth o dan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001(**11**);

ystyr "Contract GMS" ("G*MS Contract*") yw contract o dan adran 28Q o'r Ddeddf;

ystyr "cwrs a achredwyd" ("*accredited course*") yw cwrs a achredwyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth;

ystyr "cyfarpar" ("*appliance*") yw cyfarpar rhestredig o fewn ystyr adran 41 o'r Ddeddf(**12**);

mae "Cyfarwyddyd Grwp Cleifion" ("*Patient Group Direction*") i'w ddehongli yn unol â rheoliad 7(2);

ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("*National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

mae "cyffuriau" ("*drugs*") yn cynnwys meddyginiaethau;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977;

ystyr "esemptiad" ("*exemption*") yw unrhyw ollyngiad a ddarperir ar ei gyfer yn rheoliad 8;

mae "fferyllydd" ("*chemist*") yn cynnwys unrhyw berson, heblaw meddyg, sy'n darparu gwasanaethau fferyllol;

ystyr "fferyllydd-ragnodydd annibynnol" ("*pharmacist independent prescriber*") yw person—

(a) sy'n fferyllydd, a

(b) y cofnodir yn erbyn ei enw yn y gofrestr berthnasol nodyn yn dynodi ei fod yn gymwys i archebu cyffuriau, meddyginiaethau a chyfarpar fel fferyllydd-ragnodydd annibynnol;

ystyr "ffurflen bresgripsiwn gyfatebol" ("*equivalent prescription form*") yw ffurflen a ddarparwyd ac a ddyroddwyd o dan drefniadau cyfatebol sy'n effeithiol yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon i alluogi person i gael gwasanaethau fferyllol neu wasanaethau fferyllol lleol, neu yn yr Alban wasanaethau gofal fferyllol a ddarperir o dan Ran 1 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (yr Alban) 1978(**13**), ac nid yw'n cynnwys—

(a) ffurflen bresgripsiwn Gymreig;

(b) presgripsiwn amlroddadwy Cymreig; neu

(c) presgripsiwn amlroddadwy cyfatebol;

ystyr "ffurflen bresgripsiwn Gymreig" ("*Welsh prescription form*") yw ffurflen a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Lleol neu Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru a ddyroddwyd gan ragnodydd neu ddeintydd i alluogi person i gael gwasanaethau fferyllol ac nid yw'n cynnwys—

(a) presgripsiwn amlroddadwy Cymreig;

(b) ffurflen bresgripsiwn gyfatebol; neu

(c) presgripsiwn amlroddadwy cyfatebol,

ac at ddibenion y diffiniad hwn—

ystyr "un o Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru" ("*Welsh NHS Trust*") yw Ymddiriedolaeth y GIG y lleolir y cyfan neu'r rhan fwyaf o'i hysbytai, sefydliadau a chyfleusterau yng Nghymru;

(**10**) 1989 p.44.
(**11**) O.S. 2001/253.
(**12**) Disodlir adran 41 o'r Ddeddf gan adran 80 o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 gydag effaith o 1 Mawrth 2007.
(**13**) 1978 p.29.

ystyr "gwasanaethau amlweinyddu" ("*repeat dispensing services*") yw gwasanaethau fferyllol sy'n ymwneud â darparu cyffuriau neu gyfarpar gan fferyllydd yn unol â phresgripsiwn amlroddadwy;

ystyr "gwasanaethau gweinyddu" ("*dispensing services*") yw gwasanaethau sy'n cyfateb i wasanaethau fferyllol o dan delerau contract GMS sy'n rhoi effaith i baragraffau 47 i 51 o Atodlen 6 i Reoliadau Contract GMS;

ystyr "hosan elastig" ("*elastic hosiery*") yw hosan i'r pigwrn, i'r goes, i'r ben-glin, i'r goes o dan y ben-glin neu i'r glun;

ystyr "meddyg" ("*doctor*") yw ymarferydd meddygol cofrestredig;

ystyr "nyrs-ragnodydd annibynnol" ("*nurse independent prescriber*") yw person—

(a) y mae ei enw wedi'i gofrestru yn y Gofrestr Nyrsion a Bydwreigiaeth, a

(b) sydd, o ran y person sy'n ymarfer yng Nghymru ar 1 Chwefror 2007 neu ar ôl y dyddiad hwnnw, wedi llwyddo mewn cwrs a achredwyd ar gyfer ymarfer fel nyrs-ragnodydd annibynnol;

ystyr "nyrs sy'n rhagnodi'n annibynnol" ("*independent nurse prescriber*") yw person—

(a) sydd wedi'i gofrestru yn y Gofrestr Nyrsio a Bydwreigiaeth, a

(b) y mae nodyn yn ei gylch yn dynodi ei fod yn gymwys i archebu cyffuriau, meddyginiaethau a chyfarpar—

(i) o'r Llyfr Fferyllol Nyrsys sy'n Rhagnodi sydd ar gyfer Nyrsys Ardal ac Ymwelwyr Iechyd yn Rhan XVIIB(i) o'r Tariff Cyffuriau, neu

(ii) o'r Llyfr Fferyllol Nyrsys sy'n Rhagnodi sydd ar gyfer Ymarferwyr Cymunedol yn Rhan XVIIB(i) o'r Tariff Cyffuriau,

hefyd wedi'i gofnodi yn y gofrestr honno;

ystyr "presgripsiwn amlroddadwy cyfatebol" ("*equivalent repeatable prescription*") yw presgripsiwn a geir mewn ffurflen ac a ddyroddwyd o dan drefniadau cyfatebol sy'n effeithiol yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon i alluogi person i gael gwasanaethau amlweinyddu sydd yn gyfateboli'r rhai hynny a ddarperir yng Nghymru;

ystyr "presgripsiwn amlroddadwy Cymreig" ("*Welsh repeatable prescription*") yw presgripsiwn ar ffurf a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Lleol ac a ddyroddwyd gan ragnodydd amlroddadwy i alluogi person i gael gwasanaethau fferyllol yn y fformat a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 1 i Reoliadau Contract GMS ac—

(a) a gynhyrchir gan gyfrifiadur ond a lofnodir gan ragnodydd amlroddadwy; a

(b) sy'n dangos y ceir darparu'r cyffuriau neu'r cyfarpar a orchmynnir ar y ffurflen fwy nag unwaith, ac sy'n pennu sawl gwaith y ceir eu darparu;

ystyr "rhagnodydd" yw—

(a) meddyg,

(b) nyrs sy'n rhagnodi'n annibynnol,

(c) rhagnodydd atodol,

(ch) nyrs-ragnodydd annibynnol, ac

(d) fferyllydd-ragnodydd annibynnol;

ystyr "rhagnodydd amlroddadwy" ("*repeatable prescriber*") yw rhagnodydd—

(a) sy'n gontractiwr GMS sy'n darparu gwasanaethau rhagnodi amlroddadwy o dan delerau ei gontract sy'n rhoi effaith i baragraff 40 o Atodlen 6 i'r Rheoliadau Contract GMS; neu

(b) sy'n gyflogedig neu a gymrwyd ymlaen gan gontractiwr GMS sy'n darparu gwasanaethau rhagnodi amlroddadwy o dan delerau ei gontract sy'n rhoi effaith i baragraff 40 o Atodlen 6 i'r Rheoliadau Contract GMS;

ystyr "rhagnodydd atodol" ("*supplementary prescriber*") yw person—

(a) y mae ei enw wedi'i gofrestru yn—

(i) y Gofrestr Nyrsio a Bydwreigiaeth;

(ii) y Gofrestr Fferyllwyr Fferyllol a gedwir yn unol ag adran 2(1) o Ddeddf Fferylliaeth 1954;

(iii) y gofrestr a gedwir yn unol ag Erthyglau 6 a 9 o Orchymyn Fferylliaeth (Gogledd Iwerddon) 1976,

(iv) y rhan o'r gofrestr a gedwir gan Gyngor Proffesiynau Iechyd Cymru yn unol ag erthygl 5 o Orchymyn Proffesiynau Iechyd Cymru 2001 sy'n ymwneud ag—

(aa) ciropodyddion a phodiatryddion;

(bb) ffysiotherapyddion; neu

(cc) radiograffyddion: diagnostig neu therapiwtig, neu

(v) yn y gofrestr optometryddion a gedwir gan y Cyngor Optegol Cyffredinol yn unol ag adran 7(a) o Ddeddf Optegwyr 1989, a

(b) y cofnodwyd yn erbyn ei enw yn y gofrestr berthnasol nodyn yn dynodi ei fod yn gymwys i archebu cyffuriau, meddyginiaethau a chyfarpar fel rhagnodydd atodol;

ystyr "Rheoliadau Contract GMS" ("*the GMS Contract Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau'r Gwasanaethau Meddygol Cyffredino) (Cymru) 2004(**14**);

ystyr "Rheoliadau Ffioedd 2000" ("*the Charges Regulations 2000*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) 2000(**15**);

ystyr "Rheoliadau Ffioedd 2001" ("*the Charges Regulations 2001*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) 2001(**16**);

ystyr "y Rheoliadau Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl" ("*the Travelling Expenses and Remission of Charges Regulations*") yw Rheoliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) 1988(**17**);

ystyr "swp-ddyroddiad" ("*batch issue*") yw ffurflen sy'n cael ei darparu gan Fwrdd Iechyd Lleol a'i dyroddi gan ragnodydd amlroddadwy yr un pryd â phresgripsiwn amlroddadwy i alluogi fferyllydd i gael taliad am ddarparu gwasanaethau amlweinyddu, ac sydd yn y fformat a bennir yn Rhan 2 o Atodlen 1 i'r Rheoliadau Contract GMS, ac sydd —

(a) yn cael ei chynhyrchu gan gyfrifiadur ond nad yw'n cael ei llofnodi gan ragnodydd amlroddadwy;

(b) yn ymwneud â phresgripsiwn amlroddadwy penodol ac yn cynnwys yr un dyddiad â'r presgripsiwn hwnnw;

(c) yn ffurfio rhan o ddilyniant o ffurflenni, lle mae'r nifer o ffurflenni yn gyfartal â nifer yr adegau y caniateir darparu'r cyffuriau neu'r cyfarpar a orchmynwyd ar y presgripsiwn amlroddadwy; ac

(ch) yn pennu Rhif i ddynodi ei lle yn y dilyniant y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (c);

(**14**) O.S. 2004/478 (Cy.48), fel y'u diwygiwyd ddiwethaf gan O.S. 2006/945 (Cy.94).
(**15**) O.S. 2000/620, fel y'u diwygiwyd ddiwethaf gan O.S. 2006/675.
(**16**) O.S. 2001/1358 (Cy.86), fel y'u diwygiwyd ddiwethaf gan O.S. 2003/1792 (Cy. 188).
(**17**) O.S. 1988/551, fel y'u diwygiwyd ddiwethaf gan O.S. 2006/2791 (Cy. 232).